# Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021

**2021 dsc 4**

## RHAN 2

CWRICWLWM MEWN YSGOLION A GYNHELIR, YSGOLION MEITHRIN A GYNHELIR AC ADDYSG FEITHRIN A GYLLIDIR OND NAS CYNHELIR

## PENNOD 4

GWEITHREDU CWRICWLWM: EITHRIADAU

### 46 Apelau am eithriadau dros dro ar gyfer plant unigol

(1) Mae'r adran hon yn gymwys—

(a) pan fo darparwr addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir yn gwneud, yn amrywio neu'n dirymu penderfyniad o dan reoliadau a wneir o dan adran 42 mewn perthynas â phlentyn y darperir yr addysg ar ei gyfer, neu

(b) pan fo rhiant plentyn y darperir addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir ar ei gyfer yn gofyn i ddarparwr yr addysg wneud penderfyniad o dan y rheoliadau hynny mewn perthynas â'r plentyn, ond pan na fo penderfyniad wedi ei wneud.

(2) Caiff rhiant y plentyn apelio i'r awdurdod lleol sydd wedi sicrhau'r addysg.

(3) Os gwneir apêl o dan yr adran hon, caiff yr awdurdod lleol—

(a) cyfarwyddo'r darparwr, yn ysgrifenedig, i gymryd y camau gweithredu y mae'r awdurdod lleol yn ystyried eu bod yn briodol mewn cysylltiad â'r penderfyniad y cyfeirir ato yn is-adran (1)(a) neu'r cais y cyfeirir ato yn is-adran (1)(b), neu

(b) hysbysu'r darparwr, yn ysgrifenedig, na roddir unrhyw gyfarwyddyd o'r fath.

(4) Rhaid i'r awdurdod lleol roi hysbysiad ysgrifenedig o'i benderfyniad i riant y plentyn.

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, Adran 46 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 10 Mehefin 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

(5) Rhaid i'r darparwr gydymffurfio â chyfarwyddyd a roddir o dan is-adran (3).

(6) Caiff rheoliadau wneud darpariaeth bellach mewn cysylltiad ag apelau o dan yr adran hon.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 46 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 84(2)**

**I2** A. 46 mewn grym ar 1.9.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/652, ergl. 5(1)(2)(d), **Atod.**

**I3** A. 46 mewn grym ar 1.9.2023 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/652, **ergl. 6(1)**(2)(d)

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, Adran 46 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 10 Mehefin 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to :**

- s. 46 coming into force by S.I. 2022/652 art. 7(e)
- s. 46 coming into force by S.I. 2022/652 art. 8(b)
- s. 46 coming into force by S.I. 2022/652 art. 9(b)